

**HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYF**  
**DISGRIFIAD O'R SWYDD A MANYLEB BERSONOL**

<b>Teitl Swydd</b>	Rheolwr Perthynas y Diwydiant
<b>Lleoliad</b>	Lleoliadau ledled Cymru
<b>Cyfrifol i:</b>	Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd
<b>Gradd</b>	4A:
<b>Cyflog</b>	£50,000 - £59,000 y flwyddyn (yn dibynnu ar brofiad)

**PRIF BWRPAS Y SWYDD:**

Mae'r rôl Rheolwr Perthynas y Diwydiant yn un allweddol o ran cyflawni rhaglen mabwysiadu arloesedd heriol ac amldisgyblaethol sydd â'r nod o gyflymu'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol a fydd yn gwella cyfoeth, iechyd a lles yng Nghymru.

Gan fod hon yn rôl newydd, bydd cyfrifoldebau a dyletswyddau penodol y swydd yn datblygu'n organig yn y tymor byr, ond pwrpas cyffredinol y rôl yw canfod, blaenoriaethu a meithrin cyflenwad o gyfleoedd arloesol hyblyg o werth uchel i gwrdd â heriau allweddol ym maes iechyd a gofal a diwallu anghenion clinigol sydd heb eu bodloni y mae Byrddau Iechyd a sefydliadau iechyd a gofal ar raddfa ehangach yn eu hwynebu.

Bydd deiliad y swydd yn cynnal amryw o weithgareddau a fydd yn canolbwytio ar ddiwydiant i sicrhau bod canlyniadau'r rhaglen mabwysiadu arloesedd yn cael eu gwireddu. Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- i) Datblygu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth eang o'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, yn y DU ac ar raddfa ryngwladol er mwyn llywio ffocws, dyluniad a chyflawniad rhaglen mabwysiadu arloesedd y cwmni a dod o hyd i gynnrych/atebion newydd ar gyfer y gwasanaeth;
- ii) Cydweithio'n agos â'r tîm Ymgysylltu - Iechyd a Gofal i ddatblygu nifer o ddulliau a fydd yn ffurio rhaglen mabwysiadu arloesedd y Cwmni a'u rhoi ar waith er mwyn creu cyflenwad o gyfleoedd arloesi perthnasol a phenodedig;
- iii) Cyflawni prosiectau mabwysiadu arloesedd drwy ddatblygu a rheoli cynlluniau ar gyfer prosiectau pwrpasol a fydd, ymysg pethau eraill, yn i) herio a phrofi cynigion, ii) ystyried a gwerthuso cynnyrch a gwasanaethau mewn cyd-destun byd go iawn, iii) ategu'r gallu a'r capasiti i dyfu yn unol ag anghenion a iv) archwilio ac yn gweithredu fel sail ar gyfer achos manwl dros fabwysiadu;
- iv) Gweithio gyda grŵp eang ac amrywiol o randdeiliaid i ddod â phartneriaid at ei gilydd i weithio ar agenda cyffredin, gan feithrin ymrwymiad i weledigaeth ar y cyd i wella iechyd a chyfoeth y boblogaeth;

- v) Gwerthuso, monitro ac adrodd ar ganlyniadau ac effaith gweithgareddau'r rhaglen, ac, yn benodol, effaith dulliau arloesol sy'n cael eu mabwysiadu ar ofal cleifion, arbedion a chostau a thwf y busnes;
- vi) Hyrwyddo'r rhaglen mabwysiadu arloesedd yn benodol, a gwasanaethau a chenhadaeth y Cwmni yn gyffredinol, bob cyfle posibl.

Bydd y Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd a deiliad y swydd yn cytuno ar ddisgrifiad swydd terfynol ar adeg briodol.

Bydd llwyddiant y rôl yn cael ei asesu yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol unigol. Caiff perfformiad hefyd ei fesur yn ôl darpariaeth gyffredinol y cynllun cyflawni/strategol o gymharu â gofynion y Llythyr Cylch Gwaith.

#### **PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Meithrin a chyfuno gwybodaeth y Cwmni am y sector gwyddorau bywyd, datblygiadau a syniadau newydd yng Nghymru, y DU ac ar lefel ryngwladol a'i ddealltwriaeth ohonynt fel sail ar gyfer ffocws thematig a strategaeth y cwmni.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd i ddatblygu cynlluniau cyflawni'r Cwmni ar gyfer ei raglen diwydiant yn y tymor byr (12-mis), y tymor canolig a'r tymor hir.
- Llunio, cyflawni a monitro strategaeth rheoli cysylltiadau er mwyn meithrin perthynas gref a chynhyrchiol â diwydiant ac â rhanddeiliaid gyda'r nod o sefydlu'r tîm ymgysylltu â'r diwydiant fel y partner y dylai cwmnïau ac arloeswyr sydd am ymgysylltu â'r sector iechyd a gofal yng Nghymru droi ato.
- Sefydlu a chynnal rhwydwaith rhanddeiliaid amrywiol ar draws diwydiant, academia a rhagleni / gwasanaethau cymorth perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn casglu'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu prosiect arloesol sy'n barod i'w fabwysiadu.
- Creu a rhoi ar waith nifer o ddulliau, er enghraift heriau arloesi, cystadlaethau arloesi a llwyfan ar lein ar gyfer ymgysylltu â diwydiant, a fydd yn ffurfio rhaglen mabwysiadu arloesedd y Cwmni er mwyn creu cyflenwad o gyfleoedd seiliedig ar angen i sbarduno'r farchnad.
- Datblygu, hyrwyddo a defnyddio llwyfan ar-lein ar gyfer ymgysylltu â diwydiant er mwyn hybu a sicrhau cyfleoedd i arloesi.
- Llunio a chyflawni strategaeth mewnfuddsoddi i gynyddu nifer y busnesau iechyd a gwyddorau bywyd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd y strategaeth hon yn targedu arloeswyr, gweithgynhyrchwyr, cwmnïau gwasanaeth a busnesau digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau iechyd, o fusnesau rhyngwladol i fusnesau sydd yng nghamau cynnar eu datblygiad.
- Cydweithio â chydweithwyr ym maes ymgysylltu ag iechyd a gofal i sefydlu meysydd thematig, yr heriau iechyd a gofal allweddol a'r anghenion clinigol sydd heb eu diwallu y mae Byrddau Iechyd a sefydliadau iechyd a gofal ar raddfa ehangach yn eu hwynebu er mwyn pennu beth i ganolbwytio arno o ran creu cyfleoedd sy'n seiliedig ar angen.

- Adolygu a rheoli cynlluniau ar gyfer prosiectau mabwysiadu arloesedd er mwyn darparu prosiect arloesi sy'n barod i gael ei fabwysiadu. Bydd deiliad y swydd yn defnyddio ei wybodaeth ei hun a gwybodaeth ei gydweithwyr, ynghyd â gwybodaeth partneriaid clinigol, academiaidd ac eraill i sefydlu beth yw gofynion prosiect arloesi sy'n barod i gael ei fabwysiadu a llunio cynllun mabwysiadu arloesedd sydd wedi'i deilwra bwrpasol i fodloni'r gofynion hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
  - herio a phrofi cynigion
  - ystyried a gwerthuso cynnrych a gwasanaethau mewn cyd-destun byd go iawn
  - diogelu eiddo deallusol
  - mynd i'r afael â gofynion cyllido
  - sicrhau y rhoddir sylw i'r elfen gallu a chapasiti i dyfu yn unol ag anghenion
  - archwilio a llywio achos manwl dros fabwysiadu
- Cynhyrchu adroddiadau monitro ar gyfer prosiectau mabwysiadu arloesedd a chymryd camau i sicrhau bod prosiectau mabwysiadu arloesedd yn cael eu cyflawni o fewn y cyfnod a gytunwyd.
- Cydweithio â chydweithwyr ym maes ymgysylltu ag iechyd a gofal er mwyn dwyn ynghyd yr wybodaeth, y sgiliau, a'r arbenigedd gofal/iechyd/clinigol priodol sydd eu hangen i ddarparu prosiect arloesi sy'n barod i gael ei fabwysiadu.
- Llunio a chyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau arloesi sy'n barod i gael eu mabwysiadu i'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd /y Panel Datblygu Cyflenwad /Arbenigwyr Pwnc yn ôl y galw.
- Cefnogi busnesau gwyddorau bywyd yng Nghymru i archwilio cyfleoedd i dyfu ar raddfa ryngwladol.
- Gweithio gyda chydweithwyr ym maes diwydiant a'r gwasanaeth iechyd i arloesi, monitro, gwerthuso ac adrodd ar ganlyniadau ac effaith prosiectau arloesi sy'n cael eu mabwysiadu, er enghraifft, datblygu dulliau o gasglu data ar welliannau yng nghyswilt gofal cleifion, arbedion effeithlonrwydd, lleihau costau, twf busnes (trosiant a swyddi) a chyllid a gafwyd.
- Canfod a chreu cyfleoedd i grwpiau rhanddeiliaid rannu llwyddiannau arloesi ac annog mwy o fabwysiadu. Cefnogi amrywiol fathau o rwydweithiau agored, gan gynnwys rhwydwaith o gynghorwyr arbenigol i hwyluso cyfeirio buddiol.
- Gweithio gyda'r tîm digwyddiadau a chyfathrebu i lunio strategaeth digwyddiadau a chyfathrebu i addysgu, llywio a hyrwyddo rhannu syniadau, cyfleoedd, anghenion, llwyddiannau ayyb. Datblygu cynnwys i godi ymwybyddiaeth o'r llwyfan ar-lein ar gyfer ymgysylltu â diwydiant a chynyddu'r defnydd ohono.

- Defnyddio/rhoi systemau ar waith i gasglu gwybodaeth am weithgareddau perfformiad unigol a chynnal dogfennau prosiect perthnasol. Cydymffurfio â'r gofynion o ran monitro gweithrediad, cadw cofnodion, adrodd a chasglu tystiolaeth ac amserlenni.
- Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd i sefydlu Cymru fel lleoliad gwyddorau bywyd rhanbarthol cryf.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a nodau'r cwmni.
- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu'n unol â chod ymddygiad y cwmni.

## **GWYBODAETH**

- Gwybodaeth gynhwysfawr am y sector gwyddorau bywyd, meysydd thematig/syniadau a datblygiadau newydd yng Nghymru, y DU ac ar lefel ryngwladol
- Dealltwriaeth gadarn o'r broses o fasnacheiddio cynnrych/gwasanaethau a gwerthu i'r sector gofal ac iechyd
- Deall offer a dulliau arloesi a sut y gellir eu defnyddio yn y sector gofal ac iechyd
- Ymchwil i'r farchnad ac asesu hyfywedd masnachol prosiectau arloesi
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o'r heriau/cyfleoedd y mae sectorau iechyd a gofal (y GIG yn ddelfrydol) yn eu hwynebu yng nghyswllt mabwysiadu prosiectau arloesi gyda'r gallu i ddehongli beth allai hyn ei olygu o safbwyt dyluniad a darpariaeth yr rhaglen
- Deall y fframwaith a'r cyd-destun gwleidyddol sy'n berthnasol i gwmni sy'n gweithredu fel 'corff hyd braich' ar ran Llywodraeth Cymru.

## **PROFIAD**

- Profiad amlwg o ymgynghori yng nghyswllt twf busnes
- Digon o brofiad yn y sector gwyddorau bywyd a/neu brofiad o asesu/rheoli/ymgyngħori ar arloesi i fod yn gredadwy i ystod eang o randdeiliaid hyddysg iawn ym maes arloesi, iechyd, gofal a lles
- Profiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau ar y cyd rhwng y sector gofal ac iechyd, academia a sefydliadau masnachol
- Profiad fel ymarferydd rheoli prosiectau
- Profiad o weithredu mewn amgylchedd masnachol, yn ddelfrydol mewn maes cysylltiedig ag iechyd
- Profiad o gyflwyno gwybodaeth gymhleth yn glir, yn gryno ac yn gywir wrth fynychu cyfarfodydd, rhoi cyflwyniadau neu ryngweithio â chydweithwyr.
- Hanes blaenorol o lwyddiant ym maes datblygu busnes / rheoli cysylltiadau / rhwydweithio.
- Llwyddiant amlwg mewn datblygu strategaeth mewnfuddsoddi a'i rhoi ar waith
- Profiad o feithrin, arwain ac ysgogi timau prosiect sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid i sicrhau canlyniadau

## **SGILIAU A GALLU**

- Hyderus a phendant gyda sgiliau dylanwadu a negodi.
- Gallu cyfleo pwysigrwydd arloesi i'r sector iechyd a gofal

- Llawn hunangymhelliant a gallu gweithio dan bwysau
- Hunanfeirniadol, er mwyn gwella atebion a phrosesau yn barhaus
- Meddwl dadansoddol a strategol, gyda'r gallu i gymhathu, symleiddio, mynegi a throsi gwybodaeth yn gynllun ar gyfer rhaglen a chyflawni'r rhaglen honno; gallu dethol dysg a gweld pa mor berthnasol ydyw i wahanol gynulleidfa oedd a rhanddeiliaid
- Gallu gwneud sawl tasg ar unwaith a gweithio ar nifer o brosiectau ar yr un pryd
- Rhagweithiol a llawn cymhelliant i lwyddo
- Sgiliau cyfathrebu CADARN ar lafar ac ar bapur
- Sgiliau uwch yng nghyswllt Microsoft Office a'r gallu i ymgyfarwyddo â systemau TG newydd yn gyflym
- Sgiliau hyfforddi amlwg
- Tystiolaeth amlwg o reoli prosiectau, rheoli pobl a sgiliau trefnu.
- Sgiliau arwain er mwyn ysgogi, datblygu a rhoi arweiniad i randdeiliaid gyda'r nod o sicrhau perfformiad sy'n unol â DPA ac amcanion strategol.
- Gallu dangos lefel uchel o uniondeb cymeriad, sgiliau rhyngbersonol cadarn, y gallu i greu consensws a rhoi pwyslais mawr ar gyfrifoldeb ac atebolrwydd

## GOFYNION ERAILL


- Yn barod i weithio oriau hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Yn barod i weithio oriau anghymdeithasol pan fo angen.
- Hunanddigonol wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Mae teithio'n rhan o'r rôl, a bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â thrwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun, neu allu defnyddio math arall addas o deithio.

Nid bwriad y disgrifiad hwn yw cynnwys pob agwedd ar y rôl, ond, yn hytrach, rhoi diffiniad clir o bwrrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau'r rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd wneud pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn sylweddoli ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.



**LIFE SCIENCES HUB WALES LTD  
JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION**

<b>Job Title</b>	Industry Relationship Manager
<b>Location</b>	Locations across Wales
<b>Responsible to</b>	Innovation Adoption Director
<b>Grade</b>	4A
<b>Salary</b>	£50,000 - £59,000 pa (depending upon experience)

**MAIN PURPOSE OF ROLE:**

The Industry Relationship Manager is a key role in the delivery of a challenging and multi-disciplinary innovation adoption programme which seeks to accelerate the development and adoption of innovative solutions for better wealth, health and wellbeing in Wales.

As a new role, the specific duties and responsibilities will develop organically in the short term, however the overall purpose of the role is to identify, prioritise and nurture a pipeline of high value, innovative, adoptable opportunities to meet key health and care challenges and unmet clinical needs encountered by Health Boards and broader health and care organisations.

The post holder will conduct a range of industry focused activities to ensure the realisation of innovation adoption programme outcomes, to include but not limited to:

- i) Develop broad knowledge and understanding of the life sciences sector in Wales, the UK and internationally to inform the focus, design and delivery of the company's innovation adoption programme and source new product/service solutions;
- ii) Work closely with the Health and Care engagement team to develop and execute a number of mechanisms which will form the Company's innovation adoption programme to generate a pipeline of relevant/targeted innovation opportunities;
- iii) Deliver innovation adoption projects through the development and management of bespoke project plans which will (but not limited to) i) challenge and test proposals, ii) consider and evaluate products and services in a real-world context, iii) support scalability capacity and capability and iv) explore and inform a detailed case for adoption;
- iv) Work across a wide and diverse stakeholder group to bring partners together around a common agenda, building commitment to the shared vision of improving the health and wealth of the population;
- v) Evaluate, monitor and report the outcomes and impact of programme activity, particularly adopted innovations impact on patient care, efficiencies and cost and business growth; and

- vi) Promote the innovation adoption programme specifically, and the Company's mission and services generally at every opportunity.

The Innovation Adoption Director and post holder will agree a final job description at an appropriate time.

The success of this role will be assessed against individual key performance indicators. Performance will also be judged against the overall delivery of the strategic / delivery plan against the requirements of the Remit Letter.

#### **MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

- Build and curate the Company's knowledge and understanding of the life sciences sector, new developments and emerging ideas in Wales, the UK and internationally to inform the company's strategy and thematic focus.
- Work with the Innovation Adoption Director to develop the Company's short (12-month), medium and long-term delivery plans for the Company's industry programme.
- Develop, deliver and monitor a relationship management strategy to build strong, productive relationships with industry and stakeholders to establish the industry engagement team as the 'go-to' partner for companies and innovators seeking to engage with the health and care sector in Wales.
- Establish and retain a diverse stakeholder network across industry, academia and relevant public and private sector support services / programmes to convene the knowledge, expertise and skills required to deliver an adoption ready innovation.
- Develop and execute a number of mechanisms, such as innovation challenges, innovation competitions and online industry engagement platform, which will form the Company's innovation adoption programme to generate a pipeline of needs led and market push opportunities.
- Develop, promote and utilise an online industry engagement platform to promote and capture innovation opportunities.
- Develop and deliver an inward investment strategy to increase the number of health and life sciences businesses based in Wales. This strategy will target innovators, manufacturers, service companies and digital businesses engaged in health activities, to include multi-national businesses through to early stage businesses.
- Collaborate with health and care engagement colleagues to establish the thematic areas, key health and care challenges and unmet clinical needs encountered by Health Boards and broader health and care organisations to determine the focus for needs led opportunity generation.
- Review and manage innovation adoption project plans to deliver an adoption ready innovation. The post holder will utilise own knowledge, and that of colleagues, academic, clinical and other partners to establish the requirements of an 'adoption ready innovation' and develop a tailored innovation adoption plan to meet them. To include, but not limited to:

- challenge and test proposals
  - consider and evaluate products and services in a real-world context
  - intellectual property protection
  - address funding requirements
  - ensure scalability capacity and capability is addressed
  - explore and inform a detailed case for adoption
- Produce innovation adoption project monitoring reports and take effective action to ensure innovation adoption projects are delivered within agreed timeframe.
- Collaborate with health and care engagement colleagues to assemble the appropriate clinical/health/care knowledge, expertise and skills required to deliver an adoption ready innovation.
- Produce and present adoption ready innovation proposals to Innovation Adoption Director/Pipeline Progression Panel/subject matter experts as required.
- Support Welsh life sciences businesses to explore international growth opportunities.
- Work with industry and health colleagues to innovate, monitor, evaluate and report on outcomes and impacts of adopted innovations for example the development of mechanisms to gather data on improvements in patient care, efficiency savings, cost reductions, business growth (turnover and jobs) and funding secured.
- Identify and create opportunities for stakeholder groups to share innovation success and encourage the spread of adoption. Support open networks of various kinds including a network of specialist advisors to facilitate beneficial signposting.
- Work with the communications and events team to develop a communications and events strategy to educate, inform and promote the sharing of ideas, opportunities, needs, successes etc. Develop content to increase awareness and utilisation of the online industry engagement platform.
- Implement/utilise systems to capture individual performance activity and maintain relevant project documentation. Comply with operation monitoring, record keeping, reporting and evidence gathering requirements and timescales.
- Support CEO and Innovation Adoption Director to position Wales as a strong regional life sciences location.
- Promote and support the achievement of the company's mission, vision and goals.
- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the company's code of conduct.

## **KNOWLEDGE**

- In-depth knowledge of the life sciences sector, new developments and emerging ideas/thematic areas in Wales, the UK and internationally
- A sound understanding of the process of commercialising products/services and selling to the health and care sector
- An appreciation of innovation methods and tools and how they can be applied to the health and care sector
- Market research and assessing the commercial viability of innovations
- Knowledge and practical understanding of the challenges/opportunities concerning the adoption of innovation by health and care sectors (ideally NHS) with an ability to translate what this may mean for programme design and delivery
- An appreciation of the political context and framework for a company operating as an ‘arm’s length body’ of the Welsh Government

## **EXPERIENCE**

- Demonstrable business growth consultancy
- Sufficient experience within the life sciences sector and/or experience of innovation consultancy/management/assessment to be credible with a wide range of highly educated stakeholders in the field of innovation, health, care and wellbeing
- Developing and delivering collaborative projects between health and care sector, academia and commercial organisations
- Project management practitioner
- Operating in a commercial environment, ideally within a health-related area
- Presenting complex information clearly, succinctly and accurately when attending meetings, giving presentations or interacting with colleagues
- Successful track record of business development / relationship management / networking
- Demonstrable success at inward investment strategy development and implementation
- Building, leading and motivating multiple stakeholder project teams to deliver results

## **SKILLS & ABILITIES**

- Confident, assertive with influencing and negotiation skills
- Ability to communicate the importance of innovation to the health and care sector
- Self-motivated and able to work under pressure
- Self-critical, with a view to always improving solutions and processes
- Analytical and strategic thinker; able to assimilate, simplify, articulate and translate intelligence into programme design and delivery; able to extract learning and identify relevance to difference audiences and stakeholders
- Ability to multi-task and work on a number of projects simultaneously
- Proactive and highly motivated to succeed
- STRONG written and verbal communication
- Advanced Microsoft Office skills and ability to learn new IT systems quickly
- Demonstrable coaching skills
- Demonstrable project management, people management and organisational skills
- Leadership skills to motivate, guide and develop stakeholders to achieve performance in line with strategic objectives and KPIs

- Ability to demonstrate a high level of integrity, strong interpersonal skills, the ability to build consensus and put a strong emphasis on responsibility and accountability

## OTHER REQUIREMENTS

- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Prepared to work unsocial hours where required.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Travel will be required as part of the role, and a valid driving licence and own transport, or be able to provide alternative, suitable method of travel.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce, and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.